MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

YR ŴYL FWYD YN FWY AC YN WELL YN 2016

Y mis nesaf, bydd gŵyl fwyd boblogaidd Casnewydd yn dychwelyd a, chyda'i rhestr wych o werthwyr, mae'n argoeli i fod yr orau eto!

Bydd gan ŴYl Fwyd a Diod Tiny Rebel Casnewydd 2016 tuag 80 o stondinau, bydd y gystadleuaeth Teenchef boblogaidd yn dychwelyd a bydd arddangosiadau gan gogyddion profiadol. Bydd y prif weithgareddau ar ddydd Sadwrn 1 Hydref yn bennaf ar High Street ac ym Marchnad Casnewydd, gan gynnwys ei lefel galeri, a'r mannau cyfagos.

Bydd gan yr ŵyl eleni hefyd amrywiaeth o ddigwyddiadau cysylltiedig, o swper yr ŵyl gyda'r nos ddydd Gwener yn y Ridgeway Bar and Kitchen, i helfa drysor, arddangosiadau yn yr awyr agored gan gogyddion a chystadlaethau i blant yn Friars Walk, diolch i gefnogaeth busnesau lleol.

Mae'r prif noddwr, Tiny Rebel, yn cynnal wythnos gyfan gyffrous o ddigwyddiadau gan gynnwys taith fragdy, ysgol gwrw, cynigion ar fwyd, cerddoriaeth fyw a chlwb pen mawr hyd yn oed!

Ynghyd â cherddoriaeth fyw ac adloniant ar y stryd ar y diwrnod, bydd mwy o ddewis nag erioed ar gyfer ymwelwyr i'r ŵyl.

Ynghyd â cherddoriaeth fyw ac adloniant ar y stryd ar y diwrnod, bydd mwy o ddewis nag erioed ar gyfer ymwelwyr i'r ŵyl.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalennau 3 a 6.

Y Cynghorydd Ray Truman a Jayne Rose o Cartrefi Dinas Casnewydd gyda gwirfoddolwyr cymunedol

LANSIO YMGYRCH BALCHDER YNG NGHASNEWYDD

Mae ymgyrch Cyngor Dinas Casnewydd i annog preswylwyr i gymryd mwy o ofal o'u hamgylchedd wedi cael hwb, diolch i Cartrefi Dinas Casnewydd.

Y landlord cymdeithasol cofrestredig hwn yw'r sefydliad cyntaf i ymuno â'r ymgyrch Balchder yng Nghasnewydd, a lansiwyd yn gynharach eleni.

Er bod yr ymgyrch yn cwmpasu'r holl ddinas, mae Cartrefi Dinas Casnewydd yn canolbwyntio ar ei denantiaid yn y Pill ac yn eu hannog i wella eu hamgylchedd lleol drwy gadw'r mannau y tu allan i'w tai yn glir o sbwriel a rwbel

Lansiwyd Balchder yng Nghasnewydd i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o bobl yn tipio sbwriel anghyfreithlon mewn safleoedd ledled y ddinas, a gostiodd mwy na £1.6 miliwn i'r cyngor ei glirio'r llynedd.

Cefnogir yr ymgyrch gan y gwasanaethau brys, Taclo Tipio Cymru, y South Wales Argus a grwpiau cymunedol sy'n gofalu am yr amgylchedd.

Lansiodd yr ymgyrch rif llinell gymorth ar gyfer hysbysu ynghylch tipio anghyfreithlon ar y priffyrdd neu dir y Cyngor sydd ar gael 24 awr y dydd - y rhif yw 07973 698582. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar briffyrdd cyhoeddus a'r tir y mae'n berchen arno. Mae gan y Cyngor bŵer hefyd i'w gwneud yn ofynnol bod perchnogion tir preifat yn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar fathau penodol o dir.

Rhoddodd y Cynghorydd Ray Truman, Dirprwy Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd a'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth, diolch i Jayne Rose, sy'n aelod o fwrdd Cartrefi Dinas Casnewydd ac sy'n byw yn y Pill, am y ffaith bod y sefydliad wedi ymuno â'r ymgyrch

"Y neges o ymgyrch Balchder yng Nghasnewydd yw bod angen i ni oll gydweithio i gadw ein dinas mor lân â phosibl ac i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Rydym yn falch iawn bod Cartrefi Dinas Casnewydd wedi llofnodi cytundeb ac edrychwn ymlaen at weld mwy o sefydliadau yn ymuno," meddai'r Cynghorydd Truman.

Dywedodd Jayne Rose, o Cartrefi Dinas Casnewydd:

"Rwy'n credu ei bod yn ymgyrch ysbrydoledig a fydd yn ennyn balchder ein tenantiaid yn y lle maent yn byw. Rydym yn gobeithio y bydd gweddill y preswylwyr yn dod ynghyd nawr ac yn cefnogi'r cynllun."

Mae Balchder yng Nghasnewydd hefyd yn defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng cudd i ddal tipwyr anghyfreithlon ac i gasglu tystiolaeth gyda'r bwriad o fynd â'r troseddwyr i'r llys.

GWAITH AR Y GWEILL AR YSGOL UWCHRADD GYMRAEG

Mae'r gwaith ar ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf Casnewydd, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, bellach ar y gweill.

Ym mis Gorffennaf, arweiniodd Maer y ddinas, y Cynghorydd David Atwell, y gwaith o dorri'r tir ar y safle yn Nyffryn, ynghyd â myfyrwyr, athrawon a llywodraethwyr. Mae'r gwaith wedi parhau dros wyliau'r haf.

Mae Ysgol Uwchradd Duffryn hefyd wedi ailagor y mis hwn fel Ysgol John Frost ac mae'n elwa o waith ailwampio ac estyniad fel rhan o'r prosiect ehangach.

Bydd y datblygiad, y mae disgwyl iddo agor ym mis Medi 2018, yn darparu hyd at 900 o leoedd ysgol yn y dyfodol, ac yn ateb y galw cynyddol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Meddai Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Debbie Wilcox: "Hoffwn ddweud 'da iawn' i'r rhai sydd wedi gweithio mor galed i gyrraedd y cam pwysig hwn. Yn ogystal â'r ysgol uwchradd Gymraeg newydd, rwy'n falch iawn y bydd Ysgol John Frost yn cael ei hailwampio, y mae angen mawr amdano."

Cynghorydd Debbie Wilcox

Y CYNGOR YN ENNILL YR APÊL YNGHYLCH FFERM SOLAR

Ym mis Hydref 2015, rhoddodd pwyllgor cynllunio'r Cyngor ganiatâd adeiladu ar gyfer fferm solar ym Michaelstone.

Gwnaeth y grŵp ymgyrchu, Keep Us Rural, gais am arolwg barnwrol o'r penderfyniad, a enillwyd gan y Cyngor. Yn dilyn hynny, gwrthodwyd cais iddo apelio hefyd.

Y Cynghorydd Ray Truman, ar y chwith eithaf, a'r Cynghorydd Debbie Harvey gyda'r garddwyr Justin ac Andrew, staff Amlosgfa Gwent a chynrychiolwyr y Pwyllgor Dethol

BANER WERDD I AMLOSGFA GWENT A PHARC BELLE VUE

Gwobrwywyd statws Baner Werdd am y tro cyntaf i Amlosgfa Gwent, yng Nghroesyceiliog, i gydnabod ei gerddi a'i harddangosfeydd blodau prydferth.

Ac mae Parc Belle Vue wedi cadw ei statws Baner Werdd yn y cynllun sy'n cael ei redeg gan Cadwch Gymru'n Daclus gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Canmolodd y Cynghorydd Ray Truman, Dirprwy Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd a'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth, waith caled pawb sy'n ymwneud â sichrau bod gerddi'r amlosgfa yn fan tawel ar gyfer galarwyr.

"Hoffwn ddiolch i'r adran parciau am arwain y prosiect, tîm rheoli Amlosgfa Gwent, a'r garddwyr Andrew a Justin am eu gwaith caled yn creu arddangosfeydd mor arbennig," meddai'r Cynghorydd Truman.

Mewn seremoni ar wahân ym Mharc Belle Vue, llongyfarchwyd adran parciau Cyngor Dinas Casnewydd gan y Cynghorydd Debbie Harvey, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Chwaraeon, am ennill statws Baner Werdd am y nawfed flwyddyn yn olynol:

"Hoffwn ddiolch i'r holl staff a chwaraeodd ran mewn helpu i gynnal a chadw'r parc prydferth hwn i safon mor uchel a Chyfeillion Parciau Addurniadol Casnewydd am eu hamser a'u hymdrech i helpu i wella ein parciau"

CANMOLIAETH AM WAITH Y CYNGOR GYDA PHLANT A THEULUOEDD

Mae dull Cyngor Dinas Casnewydd o weithio gyda phlant a theuluoedd, gyda chymorth yr elusen Barnardo's Cymru, wedi cael canmoliaeth uchel yn dilyn arolwg annibynnol.

Cynhaliodd y Sefydliad Iechyd Cyhoeddus werthusiad o'r Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd yn ddiweddar - y bartneriaeth gyntaf o'i math yn y DU. Casgliad y Sefydliad oedd ei fod yn un o'r modelau cyffredinol mwyaf trawiadol yr oedd wedi'i weld.

Ychydig dros bum mlynedd yn ôl, sefydlwyd y Gwasanaeth gyda'r weledigaeth o ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i deuluoedd a allai hyrwyddo lles plant a theuluoedd ac atal yr angen am ofal a chymorth.

Amlygodd yr adroddiad nifer o ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u haneru, a mwy
- Mae cyfradd y plant mewn angen yn fwy sefydlog ac mae'n isel o gymharu ag awdurdodau tebyg yng Nghymru
- Mae nifer y plant ag anableddau y mae angen ymyriad plentyn mewn angen arnynt wedi lleihau'n sylweddol
- Mae gan Gasnewydd bellach un o'r cyfraddau isaf a mwyaf sefydlog o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o gymharu ag awdurdodau tebyg
- Mae ffigurau recriwtio a chadw staff wedi gwella'n sylweddol.

Meddai'r Cynghorydd Gail Giles, Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a Phobl Ifanc:
"Mae datblygiad Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd Casnewydd gyda Barnardo's Cymru yn amlwg wedi blaenoriaethu ein pobl ifanc a'u teuluoedd. Rwy'n falch iawn bod arbenigwyr annibynnol wedi cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud."

RYDYM YN DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Cyhoeddir Newport Matters chwe gwaith y flwyddyn ac mae bellach yn gwbl ddwyieithog.

Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn gynharach eleni gan Lywodraeth Cymru, ac mae Cyngor Dinas Casnewydd bellach yn cynnig ei wasanaethau yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Mae ein cyfryngau cymdeithasol hefyd ar gael yn Gymraeg bellach – gwnewch yn siŵr eich bod yn ein dilyn neu'n ein hoffi yn eich dewis iaith

NewportCityCouncil
CyngorDinasCasnewydd

@NewportCouncil
@CyngorCasnewydd

GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL

Dylai rhieni sydd angen lle mewn dosbarth derbyn yng Nghasnewydd ym mis Medi 2017 ar gyfer eu plentyn a aned rhwng mis Medi 2012 a 31 Awst 2013 wneud cais nawr.

Os hoffech i'ch plentyn fynd i ysgol Gatholig, dylech wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol.

Os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 2 ar hyn o bryd, bydd angen i chi wneud cais am le mewn ysgol iau yn ystod tymor yr hydref, ac felly hefyd rhieni plant a fydd yn dechrau mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2017.

Gall rhieni a gofalwyr wneud cais ar-lein yma **www.newport.gov.uk/schooladmissions**

CREU DINAS DDIGIDOL

Gwirfoddolwr ONS Brenda Miles, defnyddiwr Kerry Davies gydag aelodau cabinet y cyngor

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cymryd cam arall ymlaen o ran ei ymrwymiad i greu dinas ddigidol.

Y cyngor cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Siarter Cynhwysiant Digidol fel sefydliad cyfan, mae Casnewydd wedi croesawu nod y siarter, a ddatblygwyd gan Cymunedau Digidol Cymru, sef hyrwyddo sgiliau digidol a helpu pobl i fynd ar-lein.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Wasanaethau Cymunedol, Gwaith a Sgiliau: *"Mae'r oes yn newid - mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd, dyfeisiau symudol a chyfryngau cymdeithasol i gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor a rhaid i ni symud gyda'r oes. Mae ein strategaeth ddigidol yn amlinellu cynlluniau clir ar sut y caiff gwybodaeth a thechnoleg eu defnyddio i ddatblygu gwell mynediad i wasanaethau, i ymateb i ddisgwyliadau ein dinasyddion o ran Cyngor sy'n gweithredu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ac i gefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ddefnyddio technoleg o'r fath. Mae mabwysiadu'r siarter hon yn ategu nod ein strategaeth ddigidol yn berffaith."*

Mae'r siarter yn cynnwys chwe addewid:

1. Sicrhau bod ein holl staff a'n gwirfoddolwyr yn cael cyfle i ddysgu sgiliau digidol sylfaenol, a'u bod yn manteisio ar y cyfle hwn.

2. Sicrhau bod ein hegwyddorion cynhwysiant digidol yn rhan annatod o'n gweithgareddau dydd i ddydd.

3. Annog a helpu ein staff a'n gwirfoddolwyr i helpu pobl eraill i fynd ar-lein a magu hyder i feithrin sgiliau digidol sylfaenol, a helpu mudiadau eraill i groesawu'r cyfle i ddefnyddio offer digidol.

4. Neilltuo cymorth ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau a chynlluniau cynhwysiant digidol yng Nghymru ym mha bynnag ffordd y gallwn.

5. Rhannu'r gweithgareddau a'r arferion gorau sydd i'w gweld ym maes cynhwysiant digidol gyda Cymunedau Digidol Cymru er mwyn gallu cydlynu ein gweithgareddau fel eu bod yn cael yr effaith orau ac yn cael eu mesur yn gyson.

6. Ceisio sefydlu partneriaethau lleol ymysg mudiadau sydd eisiau rhannu syniadau a chydlynu gweithgareddau gydag eraill yn eu hardal.

Ymysg y gwaith arall sy'n cael ei wneud i ddatblygu Casnewydd fel Dinas Ddigidol mae:

- Helpu busnesau lleol i gael mynediad i fand eang cyflym iawn
- Cynnig cymorth a hyfforddiant i helpu pobl i fynd ar-lein. Er enghraifft, mae Dydd Gwener Digidol yn sesiynau galw heibio a gynhelir yn llyfrgelloedd Casnewydd lle mae gwirfoddolwyr yn rhoi cyngor a help i bobl gael mwy o ddealltwriaeth o TG
- Defnyddio technoleg ym meysydd gwasanaeth y Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithlon
- Cynyddu nifer y gwasanaethau y gellir cael mynediad iddynt/ gwneud cais amdanynt ar-lein

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.newport.gov.uk/digitalcity

RHOI CARTREF I GI

Mae Cartref Cŵn Dinas Casnewydd (Coronation Kennels gynt) yn rhoi llety i gŵn strae neu gŵn sydd wedi'u gadael ac yn gofalu amdanynt - cŵn fel Buster (yn y llun).

Mae'r staff yn gofalu am y cŵn nes bod eu perchnogion yn eu hawlio neu tan y gellir dod o hyd i gartref parhaol iddynt. Cânt eu cefnogi gan Four Paws Animal Rescue, Friends of the Dogs (Cymru) a Chanolfan Filfeddygol Summerhill.

Gall unrhyw un sy'n meddwl y gallant gynnig cartref cariadus newydd i gi neu sy'n awyddus i wirfoddoli i helpu yn y cartref cŵn fynd i **www.newport.gov.uk/newportdogshome.**

NEWPORT CITY DOGS HOME
CARTREF CŴN DINAS CASNEWYDD

YMUNWCH Â NI AM DDIWRNOD ALLAN

Beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd, byddwch yn sicr o ddod o hyd iddo yng Ngŵyl Bwyd a Diod Tiny Rebel Casnewydd 2016.

Yn amrywio o gigoedd, cawsiau, sbeisys a chyffeithiau, bara, teisennau crwst, cacennau a chrempogau, i basteiod, olewau a sawsiau, bydd dros 80 o arddangoswyr yn barod i lenwi eich oergell gyda danteithion.

Cymerwch ran yn y digwyddiadau blasu, neu dysgwch rai awgrymiadau defnyddiol yn ein harddangosfeydd coginio. Gwyliwch y genhedlaeth nesaf o gogyddion yn brwydro i ennill y gystadleuaeth Teenchef, a noddir gan y Celtic Manor, dan lygad barcud, Hywel Jones, y cogydd o Gasnewydd a chanddo seren Michelin, sy'n noddwr yr ŵyl fwyd.

Ar ôl i'r arlwy a'r gweithgareddau godi archwaeth bwyd arnoch, bydd digonedd o ddewis i lenwi eich bol - bwyd Asiaidd, Groegaidd, Eidalaidd neu Gymreig, byrgyrs, pitsa, paella neu fwyd môr, ac wrth gwrs hufen iâ pan ddaw'r hawl allan (gobeithio).

Ac rydym yn addo torri eich syched gyda diferyn o gwrw Tiny Rebel, gwin, seidr, gwirodydd neu rywbeth ysgafn.

Diolch i gefnogaeth busnes lleol, mae hon yn argoeli i fod yn ŵyl fwy a gwell.

Noddwyr y digwyddiad eleni yw Tiny Rebel, Admiral, Celtic Manor Resort, The Golden Lion Magwyr, Everett Tomlin Lloyd & Solicitors Pratt, a Clarks - busnes teuluol o Gasnewydd sy'n cynhrychu melysyddion, surop a saws pwdin.

I gael rhagor o wybodaeth am holl weithgareddau, digwyddiadau ac arddangoswyr yr ŵyl a sut i archebu digwyddiadau arbennig, ewch i **www.gwylfwydadiodcasnewydd.com** hoffwch ni ar **www.facebook.com/newportfoodfestival** neu dilynwch ni ar Twitter **@NewportFoodFest**

CYSYLLTU POBL YN Y GYMUNED

Rebecca Wilford a Leigh Vella gyda'r Cynghorydd Cockeram, canol

Ers ei lansio yn ystod hydref 2014, mae gwasanaeth gan Gyngor Dinas Casnewydd i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol wedi helpu dros 1,500 o drigolion, gan gynnwys 336 o ofalwyr.

Tîm o bump, gan gynnwys dau yn benodol ar gyfer gofalwyr, yw Cyswllt Cymunedol sy'n helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau yn eu hardal, eu helpu i gwrdd ag eraill yn eu cymuned a rhoi cyngor ar y cymorth sydd ar gael.

Un rhan bwysig o'r gwaith yw diweddaru'r cyfeiriadur cymunedol yn rheolaidd a defnyddio'r wybodaeth sydd ynddo i gysylltu pobl â grwpiau neu sefydliadau.

Mae hon yn ddogfen ar-lein werthfawr sy'n cynnwys manylion tua 500 o sefydliadau lleol, a gellir dod o hyd iddi ar wefan y Cyngor (manylion isod).

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cockeram, Aelod Cabinet y Cyngor dros Wasanaethau Oedolion a Chymunedol: "Mae wedi bod yn un o'm blaenoriaethau i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, yn arbennig ymysg trigolion hŷn a'r rhai sy'n agored i niwed. Gall y tîm helpu'r bobl sy'n teimlo'n unig i gau'r bwlch gyda'u cymuned leol. Gallai hyn olygu dod o hyd i weithgareddau y gallant eu mwynhau gydag eraill neu mewn grŵp a fydd yn gwmni ac yn gefnogaeth.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox said: *"Hoffwn longyfarch y Cynghorydd Cockeram am gyflwyno'r cynllun ardderchog hwn a'r tîm Cyswllt Cymunedol am ei waith gwych."*

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01633 235650; ewch i **www.newport.gov.uk/communityconnectors** neu anfonwch e-bost at **community.connectors@newport.gov.uk**

GWIRIADAU DATA I CHWILIO AM DWYLL

Bydd data a gaiff eu darparu gan Gyngor Dinas Casnewydd yn cael eu cymharu â gwybodaeth a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill i atal a chanfod twyll.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd rhan yn rhaglen cydweddu data y Fenter Atal Twyll Genedlaethol ac, er mwyn gwneud hyn, bydd yn darparu manylion cyflogres, hawliadau yswiriant, preswylwyr cartrefi gofal preifat a gefnogir, stondinwyr marchnadoedd, gyrwyr tacsis, treth gyngor, trwyddedau parcio a deiliaid bathodynnau glas y Cyngor.

APÊL I BERCHNOGION CŴN

Mae perchnogion anghyfrifol cŵn, sy'n caniatáu i'w hanifeiliaid faeddu'r strydoedd, yn cael eu targedu yn ystod cam nesaf yr ymgyrch Balchder yng Nghasnewydd.

Mae'r Cyngor yn atgoffa trigolion ac ymwelwyr o'r ymgyrch 'Yn y Bag ac Yn y Bin' sy'n dweud wrth berchnogion anifeiliaid i godi'r baw a gaiff ei adael gan eu cŵn.

Bydd mwy o swyddogion gorfodi yn plismona yn gynnar yn y dydd, gyda wardeiniaid diogelwch cymunedol yn cadw llygad ar y drwgweithredwyr gyda'r nos.

Bydd swyddogion gorfodi yn cadw llygad ar bobl sy'n mynd â'u cŵn am dro ac yn asesu a yw'r perchennog yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn sicrhau bod microsglodyn ar y ci a bod ganddo goler a thag enw.

Os yw'r person sy'n mynd â'r ci am dro yn berchennog cyfrifol, gall gael ei enwebu mewn cystadleuaeth i ennill gwobr a gaiff ei beirniadu unwaith y mis.

Mae stensilau wedi bod yn ymddangos ar balmentydd i gyfleu'r neges Yn y Bag ac Yn y Bin ac mewn taflenni dwyieithog a gaiff eu dosbarthu i atgyfnerthu'r neges.

CYRTIAU TENNIS NEWYDD PENIGAMP

Mae gwaith ar fin dechrau y mis hwn ar ddiweddaru un o'r cyrtiau tennis ym Mharc Beechwood yng Nghasnewydd

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cytuno i'r gwaith adnewyddu ar y cwrt ger caffi Mrs T yn y parc.

Bydd ffens newydd yn cael ei osod o amgylch y terfyn allanol a wyneb newydd yn cael ei osod, ynghyd â marciau tennis a rhwydi a physt newydd.

Er mwyn i'r cwrt newydd gael ei ddefnyddio'n effeithiol, bydd nifer o goed conwydd nad ydynt o unrhyw bwysigrwydd garddwrol na hanesyddol, yn cael eu torri.

Caiff y gwaith o adnewyddu'r cwrt tennis ei wneud ar ran y Cyngor gan W&M Garden Services Ltd.

Aeth y Cynghorydd Debbie Harvey, Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Ddiwylliant, Hamdden a Chwaraeon ar ymweliad â'r parc i weld ble y caiff y cwrt newydd ei adeiladu.

"Mae tennis yn gamp a gaiff ei mwynhau gan gymaint o bobol, hen ac ifanc, ac mae pob rhiant yn hoffi gweld eu plant yn ffit ac yn gwneud ymarfer corff ac mae chwarae tennis yn un ffordd o gyflawni hyn.

Dywedodd y Cyng Harvey: *"Rwy'n edrych ymlaen at agor y cwrt newydd yn y gwanwyn."*

Dywedodd Rhys Jones, swyddog datblygu tennis Casnewydd Fyw, ei fod wedi dysgu chwarae tennis ar gwrt Parc Beechwood, ac mae wrth ei fodd bod y cwrt yn cael ei ddefnyddio eto.

Dywedodd hefyd: *"Bydd y cwrt newydd yn adnodd gwerthfawr i Barc Beechwood ac i lawer o chwaraewyr tennis lleol, gan gynnwys y rhai sy'n hyfforddi timau. Bydd yn wych ei weld yn cael ei ddefnyddio eto."*

Mae Abbie a Ben Hastings o Gasnewydd yn chwaraewyr tennis brwd ac maent yn cael eu hyfforddi gan dîm Rhys ac aethant ati i geisio cael gêm ar yr hen gwrt, felly maent yn edrych ymlaen at ei weld yn cael ei adnewyddu.

Y Cyng. Deb Harvey gydag Abbie a Ben Hastings ac aelodau o dîm datblygu tennis Casnewydd Fyw

BETH SY'N DIGWYDD

DYDD SADWRN I HYDREF
9.00 tan 5.00
Stryd Fawr a Marchnad Casnewydd

Noddir gan:

Admiral
CELTIC MANOR RESORT
Llywodraeth Cymru Welsh Government
friars walk Newport
WESTERN POWER DISTRIBUTION
Serving the Midlands, South West and Wales
EVERETT | TOMLIN LLOYD & PRATT SOLICITORS
THE GOLDEN LION
SIMPLY GREAT FOOD
www.thegoldenlionmagor.co.uk
CLARKS
• THE NATURAL SWEETENERS •

CYLLIDEB A GWASANAETHAU'R CYNGOR

Fel cynghorau ym mhob cwr o'r wlad, mae Casnewydd wedi gorfod gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi gorfod gwneud newid mawr i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau.

Mae arbedion o tua £48 miliwn wedi cael eu sicrhau eisoes yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond mae angen i ni sicrhau arbedion ychwanegol o £22 miliwn erbyn 2020/21.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y Cyngor yn gofyn i chi am y pethau sydd fwyaf pwysig i chi o ran eich lles, nawr ac ar gyfer y dyfodol, a sut rydych yn credu y dylem wneud pethau'n well ac arbed arian.

Bydd yr adborth hwn, ynghyd ag ymatebion i ymgyngoriadau blaenorol, trafodaethau â phartneriaid a data ar boblogaeth Casnewydd, yn cael eu defnyddio i helpu i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a llunio cynigion ar gyfer cyllideb 2017/18.

I gael rhagor o wybodaeth, ac i fynegi eich barn, ewch i **www.newport.gov.uk/budget**

DIWRNOD GWYBODAETH 50+

Bydd cymorth a chyngor ar amrywiaeth o bynciau ar gael mewn diwrnod gwybodaeth 50+ ddydd Sadwrn, 26 Medi rhwng 10.00 a 3.00 yng Nghanolfan Casnewydd.

Ni fydd angen talu i gael mynediad a bydd raffl a lluniaeth ar gael, ynghyd â dros 80 o stondinau i grwydro o'u hamgylch a chasglu gwybodaeth ddefnyddiol.

GOFALU AM Y GWASTADEDDAU BYW



Efallai bod rhai pobl nad ydynt yn gwybod am y dirwedd eiconig o bwysigrwydd rhyngwladol sydd ar garreg drws Casnewydd.

Mae cymunedau wedi byw a gweithio ar Wastadeddau Gwent ers i'r ardal gael ei hadennill o Aber Afon Hafren yng nghyfnod y Rhufeiniaid.

Nod y Bartneriaeth Tirwedd Gwastadeddau Byw, sy'n cynnwys y Cyngor, ac a gaiff ei harwain gan y Gymdeithas Gwarchod Adar (RSPB) yw ailgysylltu pobl â'r lle hanesyddol a bywiog hwn a rhoi dyfodol cynaliadwy iddo.

Dyfarnwyd cyllid iddo gan y Loteri Genedlaethol drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri tuag at gynllun gweithredu cadwraeth, a'r gobaith yw y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol i weithredu'r cynllun.

Nod y bartneriaeth yw cyflawni ei hamcanion drwy lunio partneriaeth gref gyda'r gymuned yn ganolog iddi.

Bwriad y prosiect yw adnewyddu, diogelu ac adrodd hanes y dirwedd unigryw.

Bydd aelodau'r tîm Gwastadeddau Byw ar grwydr yn y gymuned, felly cysylltwch â nhw ar 01633 292982 i gael rhagor o wybodaeth am sut i ddod yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn. **01633 292982.**

TWRISTIAETH YNG NGHASNEWYDD YN HYBU'R ECONOMI A SWYDDI

Y llynedd, cafodd twristiaeth yng Nghasnewydd effaith economaidd o dros £286 miliwn – cynnydd o 8.3 y cant o gymharu â 2014, yn ôl y ffigurau twristiaeth diweddaraf.

Daeth mwy o bobl i ymweld â'r ddinas (2.69 miliwn, sef cynnydd o 4.6 y cant), a gwelwyd cynnydd hefyd o 3.3 y cant yn nifer yr ymweliadau dydd a chynnydd o 8.7 y cant yn y nifer a oedd yn aros dros nos.

Roedd model gweithgaredd annibynnol, a elwir yn STEAM, ac a gaiff ei ddefnyddio gan bob cyngor yng Nghymru, hefyd yn dangos bod nifer y swyddi yn y diwydiant twristiaeth wedi codi 9.2 y cant i 3,124 (cyfwerth ag amser llawn).

Dywedodd y Cynghorydd John Richards, Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Adfywio a Buddsoddi,
"Mae'r ffigurau diweddaraf hyn yn dangos bod twristiaeth wedi cynyddu eto yn y ddinas ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi leol.

"Mae twristiaeth busnes yn elfen bwysig o'r economi ac mae'r Cyngor wedi cefnogi datblygu Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru. Rhagwelir y bydd o fudd i 1,200 o welyau yn ein gwestai a thai llety."

Rhwng 2012 a 2014, cafwyd dros 15,700 o ymweliadau twristiaeth busnes o dramor ar ben 69,000 o ymweliadau o'r fath o'r tu mewn i'r DU (astudiaeth ymchwil Blue Sail de-ddwyrain Cymru 2015/16).

Dywedodd y Cynghorydd Richards,

"Mae Casnewydd ar y map o ddifrif o ran cynadleddau busnes."

Ymysg yr ymwelwyr diweddaraf â'r ddinas, roedd Tony a Margo Floyd o America. Cafodd priodas y ddau

Roedd y ddau yn canmol y ddinas, gyda Mr Floyd yn disgrifio'r bobl leol fel y rhai mwyaf croesawgar iddo gwrdd â nhw erioed. Ychwanegodd ei fod wedi syrthio mewn cariad â Chasnewydd a'r bobl, gan ychwanegu hefyd ei bod fel "darn bach o'r nefoedd."

Dywedodd y Cynghorydd Richards:
"Hoffwn ddiolch i swyddogion y Cyngor sy'n gweithio'n galed i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghasnewydd mewn llu o wahanol ffyrdd, a thalu teyrnged hefyd i'r busnesau hynny a'u staff sy'n rhoi croeso mor gynnes i'n hymwelwyr.

"Mae gan Gasnewydd gymaint i'w gynnig yn y ddinas ei hun ac ar garreg y drws, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i annog ymwelwyr i ddod yma – a dychwelyd."

DIGWYDDIADAU ELUSENNOL Y MAER

Mae'r Maer, y Cynghorydd David Atwell, yn codi arian at dri achos da, sef Tŷ Hafan, yr hosbis i blant; SSAFA, elusen y lluoedd arfog, a Pets As Therapy.

Y digwyddiadau ar y gweill i godi arian yw: **1 Hydref:** Cyngerdd â chôr, *7.15 yn Eglwys Gadeiriol* Casnewydd **13 Hydref:** Cinio'r Maer, *7.00 ar gyfer 7.30, Junction 28*

I gael rhagor o wybodaeth, neu i brynu tocynnau, cysylltwch â swyddfa'r Maer;ffôn 01633 413015 neu e-bost **david.atwell@newport.gov.uk**

LLWYDDIANT I HYFFORDDEION

Mae wyth o hyfforddeion wedi cwblhau cwrs 14 mis yn llwyddiannus i wella eu sgiliau garddwriaeth.

Caiff y Cynllun Sgiliau Garddwriaeth Treftadaeth ei gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, gyda chefnogaeth gan saith o bartneriaid, sy'n cynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Gerddi Aberglasne, Castell Picton, Sain Ffagan, Gerddi Dyffryn, Gerddi Bodnant a Chyngor Dinas Caerdydd.

Mae'r hyfforddeion wedi cyflawni Lefel Dau yng nghymhwyster y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol a Lefel Tri Lantra.

Yn ystod y cwrs, bu'r hyfforddeion yn gweithio mewn amrywiaeth o erddi, gan gynnwys Parc Belle Vue yng Nghasnewydd. Mae'r cwrs yn golygu bod y rhai sydd wedi graddio wedi meithrin sgiliau a fydd yn helpu i ddiogelu dyfodol y gerddi a'r parciau treftadaeth ledled Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Harvey, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Chwaraeon, ei bod wrth ei bodd bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gallu chwarae ei ran wrth alluogi hyfforddeion i gymhwyso mewn sgiliau garddwriaeth. Dywedodd: *"Yn ddiweddar, llwyddodd Parc Belle Vue i ddal gafael ar ei statws Baner Werdd am y nawfed flwyddyn yn olynol, a sgiliau staff ein parciau a thiroedd sy'n gyfrifol am y ffaith bod y parc yn lle mor wych i ymweld ag ef."*

GWAITH ADFER YN CREU CARTREFI NEWYDD

Mae prosiectau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Casnewydd eisoes wedi dod â 78 o gartrefi newydd i ganol y ddinas, yn ogystal â gwella dros 30 o fflatiau presennol, ac mae llawer mwy ar y gweill.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru fwy nag £17 miliwn i gyngor y ddinas o dan ei rhaglen Lleoedd Llewyrchus dair blynedd, buddsoddiad sydd wedi creu neu alluogi dros 300 o swyddi.

Bellach yn ei flwyddyn olaf, mae'r cyngor wedi gweithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector ar ystod o gynlluniau sydd wedi trawsnewid adeiladau allweddol yn gartrefi.

Maent yn amrywio o'r prosiect cyntaf ar Cardiff Road i adeilad nodedig yn High Street.

Cafodd tŷ mawr drws nesaf i Ysbyty Brenhinol Gwent a oedd wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd ei droi'n fflatiau cyfforddus, diolch i gynllun gan y Grŵp Pobl (Seren gynt).

Mae'r hen King's Hotel, adeilad nodedig yng nghanol y ddinas, wedi cael ei adfer mewn modd cydymdeimladol a'i droi'n fflatiau, gofod swyddfa ac unedau manwerthu o ansawdd uchel.

Ymysg cynlluniau eraill mae gwelliannau i'r tu allan i fflatiau yn yr Adeiladau Cenedlaethol a adnewyddwyd yn Commercial Street a Marchnad Casnewydd. Ar y llawr gwaelod mae unedau manwerthu newydd smart lle mae rhai busnesau sefydledig a rhai busnesau newydd, gan gynnwys ardal i ehangu ar gyfer meithrinfa.

Mae gan Pobl gynllun arall sy'n creu cartrefi newydd trawiadol uwchben y siopau ar y lloriau uchaf rhwng Griffin Street a Skinner Street.

Ymysg y prosiectau Lleoedd Llewyrchus eraill a fydd yn cychwyn ystod y flwyddyn ariannol hon mae cynllun preswyl yn Commercial Street a fydd yn cynnwys mynedfa newydd well i faes parcio Park Square, fflatiau ac uned manwerthu, creu man cyhoeddus newydd ym mhen isaf Commercial Street a gwaith adnewyddu ar eiddo eraill o amgylch Mariner's Green.



Griffin Island

CYMERADWYO CYNLLUN ADFYWIO

Argaff Artist

Mae'r Cynghorydd John Richards, Aelod Cabinet y Cyngor dros Adfywio a Buddsoddi, wedi croesawu buddsoddiad arfaethedig gwerth miliynau o bunnoedd yn Ringland gan Cartrefi Dinas Casnewydd (NCH).

Y bwriad yw trawsnewid yr ardal o amgylch y ganolfan siopa yn ganolfan gymunedol fodern, well yn ogystal â mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amddifadedd.

Fel rhan o raglen adfywio ehangach, cafodd dau floc o fflatiau deulawr yng Nghylch Ringland a Chylch Cot Farm eu dymchwel y llynedd.

Dywedodd y Cynghorydd Richards:

"Nid yw ein gweledigaeth ar gyfer adfywio yn ymwneud â chanol y ddinas yn unig ac mae'n newyddion gwych bod NCH yn paratoi i ymgymryd â rhaglen mor sylweddol o fuddsoddiad ar un o'n hystadau hŷn."

Dywedodd Ceri Doyle, Prif Swyddog Gweithredol NCH:

"Mae'n gyfnod cyffrous i fod yng Nghasnewydd. Mae'r ddinas yn dechrau cyflawni ei photensial ac rydym yn gwybod y bydd buddsoddi yn ein cymunedau bywiog ac amrywiol yn dod â manteision i'r ddinas gyfan."

CYNLLUNIAU AR GYFER ARCÊD Y DDINAS

Mae cais rownd gyntaf i Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect i adfer Arcêd y Farchnad hanesyddol wedi cael ei wneud gan y Cyngor.

Un o'r problemau gyda'r strwythur rhestredig Gradd II oedd y ffaith bod nifer o berchnogion ond mae llawer ohonynt wedi bod yn gweithio gyda'r cyngor yn ddiweddar i geisio ei wella yn yr hirdymor.

AMDDIFFYN CARTREFI RHAG LLIFOGYDD

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer cynllun newydd i wella trefniadau amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer mwy na 660 o eiddo yn Crindau ar fin dechrau yn yr hydref.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dyfarnu £10 miliwn i Galliford Try yr oedd yn rhaidd iddo fodloni nifer o amodau cynllunio cyn y gall gwaith ddechrau

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'r cynllun hefyd yn gwella'r amgylchedd lleol a chreu man amwynder newydd.

I gael rhagor o wybodaeth a diweddariadau ewch i **www.cyfoethnaturiol.cymru/crindau**

LOFTUS GARDEN VILLAGE YN ENNILL GWOBR

Cafodd Loftus Garden Village ei enwi'n ddatblygiad preswyl gorau yng Ngwobrau Eiddo Insider Cymru.

Datblygwyd safle gwerth £28 miliwn Grŵp Pobl gyda chyngor y ddinas ac mae'n cael ei adeiladu gan Lovell.

Mae'n cynnwys un o dri phrosiect peilot tai cydweithredol yng Nghymru. Cwmni Cydweithredol Tai Cymdeithas Loftus Village sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am redeg 19 o'r 250 o gartrefi fforddiadwy yn yr arddull 'celf a chrefft', wedi'i reoli gan bwyllgor o hyd at 12 o breswylwyr.

MANIC STREET PREACHERS IN TARO TANT YNG NGHASNEWYDD

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer stiwdio recordio yng Nghasnewydd ar gyfer y band Cymreig Manic Street Preachers.

Cymeradwyodd Cyngor Dinas Casnewydd gais i droi adeilad preswyl yng Nghaerllion yn stiwdio.

Mae hynny'n sicr yn newyddion da.